# Proses Apelio Sicrhau Ansawdd CITB

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar y broses o apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan CITB sy'n ymwneud â cheisiadau, gwaharddiadau a therfynu mewn perthynas â Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy, Canolfannau Diogelwch Safleoedd a Mwy, a Chanolfannau Profi ar y Rhyngrwyd.

Bydd unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â cheisiadau, gwaharddiadau a therfynu mewn perthynas â Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy, Canolfannau Diogelwch Safle a Mwy, a Chanolfannau Profi ar y Rhyngrwyd yn cael eu cyfleu'n ysgrifenedig i'r darparwr hyfforddiant/profion drwy e-bost.

Mae gan y darparwyr hyfforddiant/profion hawl i apelio yn erbyn y penderfyniadau uchod drwy ddilyn proses dau gam.

**Camau'r apêl**

### Cam Un

Ar ôl cael ei hysbysu o'r penderfyniad, dylai'r apelydd gyflwyno ei apêl yn ysgrifenedig i quality.assurance@citb.co.uk o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylid rhoi "Apêl Ffurfiol" fel y Pennawd Pwnc, a darparu manylion llawn ynglŷn â pham eu bod yn anghytuno â'r penderfyniad gwreiddiol. Ar ôl i apêl ddod i law, bydd CITB yn cydnabod bod yr apêl wedi dod i law drwy anfon e-bost at yr apelydd o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Yna, bydd rheolwr annibynnol (y panel apêl) o'r tu allan i'r tîm Sicrhau Ansawdd yn gwrando ar yr apêl yn annibynnol ar y penderfyniad gwreiddiol. Gwrandewir ar yr apêl cyn pen 10 diwrnod gwaith iddi ddod i law. Bydd penderfyniad y panel apêl yn cael ei gyfleu i'r apelydd yn ysgrifenedig drwy e-bost cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r apêl ddod i law.

Rhaid i'r panel apêl sicrhau bod y penderfyniad(au) yr apelir yn eu herbyn yn seiliedig ar bolisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith gan CITB ar y pryd, a bod y penderfyniad(au) wedi cael eu defnyddio'n gywir ac yn ddiduedd.

### Cam Dau

Os bydd anghytundeb pellach, mae gan yr apelydd hawl i apelio i Bennaeth Ansawdd a Safonau CITB am adolygiad terfynol. Rhaid i bob Apêl Cam Dau ddod i law yn ysgrifenedig drwy anfon e-bost at quality.assurance@citb.co.uk, gan roi "Apêl Cam Dau" fel y Pennawd Pwnc. Dylid gwneud hyn cyn pen 10 gwaith ar ôl i benderfyniad y Panel Apêl Cam Un ddod i law. Bydd penderfyniad y Pennaeth Ansawdd a Safonau neu ei gynrychiolydd ** yn cael ei gyfleu i'r apelydd yn ysgrifenedig cyn pen 15 diwrnod gwaith *. Mae'r penderfyniad hwn yn derfynol, ac ni dderbynnir unrhyw apeliadau pellach.

Rhaid i'r Pennaeth Ansawdd a Safonau, neu ei gynrychiolydd, sicrhau bod penderfyniad(au) y panel apêl yn ystod cam un wedi cael eu defnyddio'n gywir ac yn ddiduedd.

> *Mae CITB yn cadw'r hawl i ymestyn yr amserlen hon os oes angen rhagor o wybodaeth, eglurhad neu weithgareddau, a bydd yn hysbysu'r apelydd yn ysgrifenedig os bydd unrhyw estyniadau'n cael eu gwneud.
>
> ** Bydd yr unigolyn hwn yn cael ei benodi gan y Pennaeth Ansawdd a Safonau a bydd ganddo wybodaeth a dealltwriaeth lwyr o bolisïau a gweithdrefnau CITB.